10A | Llan Ffestiniog i Chwarel Manod

O'ch blaen, mae'r llwybr amlwg yn ochri'r dyffryn serth. Ewch yn eich blaen wrth ymyl y ffens nes i chi gyrraedd giât ar y ffordd ger arwydd y llwybr troed.

Wrth y B4391, trowch i'r dde a chroesi'r ffordd gan ddilyn arwydd y llwybr troed ar ôl y grid gwartheg. Gallai'r fan hon o'r daith fod yn wlyb a chorslyd iawn, ac mae'r rhedyn yn uchel yma yn yr haf. Ewch dros y gamfa gan ddilyn y ffens, gan gadw at y tir ychydig yn uwch (a mwy sych) ar y dde, yn union o dan y clogwyni, ac anelwch am y gamfa yn y gornel ar y chwith. Dilynwch y ffens ar hyd y tir glaswelltog rhwng y ffens a'r bryn. Mae'r llwybr aneglur yn troi'n fwy lydan, ac yn mynd dros dwmpath rhwng y creigiau. Wrth gyrraedd trac arall, trowch i'r dde tua at Lyn Morwynion. Ewch o amgylch ochr chwith y llyn, gan groesi'r argae a'r man lle mae'r dŵr yn llifo allan. Os yw'r gorliffan o dan ddŵr, dilynwch yr all-lif am bellter byr i lawr yr afon a chroeswch mewn man cul amlwg. Yna ewch ymlaen i'r chwith at giât haearn ger cyffordd y ffens a'r wal. Drwy'r giât, ewch i'r chwith i ddilyn llwybr cul tebyg i drac defaid islaw'r clogwyni.

Wrth bostyn y llwybr troed ychydig y tu hwnt i adfail, cerddwch yn raddol i lawr y llethr ar y chwith, at giât galfanedig yn y wal o'ch blaen. Peidiwch â mynd drwy'r giât hon ond parhewch gyda'r wal ar eich chwith. Ewch drwy'r brwyn, gan anwybyddu camfeydd ar eich chwith. Dilynwch ochr y bryn sydd ar eich dde, gan gadw'r wal i'ch chwith nes i chi gyrraedd camfa bellach ychydig o'ch blaen.

Croeswch y gamfa a dilynwch lwybrau defaid aneglur, gyda'r ffens ar eich chwith, nes i chi gyrraedd fferm wag Garreglwyd. Ewch drwy'r giât a throwch o amgylch ochr dde'r fferm nes i chi gyrraedd arwydd llwybr troed. Croeswch y cae i gyfeiriad cyffredinol saeth arwydd y llwybr troed. Cadwch i'r chwith o'r cae lloc, yna trowch i'r dde o'r gors, gan anelu at gamfa wrth gyffordd wal a ffens. Croeswch y gamfa. I'r chwith mae adeiladau gwaith dŵr. Sgramblwch i fyny'r llethr glaswelltog serth yn syth o'ch blaen nes i chi gyrraedd llwybr glaswelltog llydan. Trowch i'r dde ar hyd y llwybr hwn, gan anwybyddu camfa a giât ar eich ochr dde yn gyntaf, yna giât arall o'ch blaen, a throi i'r chwith bob tro. Dilynwch y llwybr tua'r chwith i mewn i ddyffryn Afon Gamallt, sy'n cael ei groesi gan bont droed bren.

Mae'r llwybr yn parhau'n fwdlyd i fyny ochr arall y dyffryn, gan ddilyn y ffens. Ychydig yn brin o gilometr ymhellach ymlaen, mae'r llwybr yn troi i'r dde. Anwybyddwch hyn a dilynwch y ffens heibio pwll ar ei hochr arall nes i chi gyrraedd arwydd llwybr troed a chamfa. Croeswch y gamfa a pharhewch ar draws y llethr glaswelltog i gyfeiriad saeth y llwybr troed (ar y gris, nid ar y postyn!). Igam-ogamwch yn serth i lawr y llethr di-lwybr nes i chi gyrraedd hen lwybr chwarel glaswelltog sy'n mynd i ffwrdd i'r chwith o'r chwarel. Dilynwch hwn, gan droi i'r dde pan fydd yn cyrraedd tir mwy gwastad, i ymuno â'r ffordd wrth bostyn amlwg. Dilynwch y ffordd i fyny'r allt i'r dde nes i chi gyrraedd mynedfa Chwarel Manod.

Llyn Morwynion

Cwm Teigl

ARIANNU: Magnox; Cronfa CAE Parc Cenedlaethol Eryri; Sefydliad Foyle; Sefydliad Garfield Weston; Ymddiriedolaeth Oakdale; Sefydliad Cymunedol Cymru; HF Holidays; Horizon; First Hydro; Ymddiriedolaeth Laspen; Cyngor Tref Bethesda; Cyngor Tref Ffestiniog; Elusen Ogwen; Llechi Cymru; Menter Môn; PAVO; Ymddiriedolaeth Ninevah; Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones; Mantell Gwynedd; Sefydliad Ashley; Rehau Plastics; Sefydliad Blakemore; Dŵr Cymru.

Mae Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri yn Elusen Gofrestredig, Rhif 1182188.